# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Tachwedd 2016

Amser: 09.18 - 12.16

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3792

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Michelle Brown AC<br>Hefin David AC<br>John Griffiths AC<br>Llyr Gruffydd AC<br>Darren Millar AC<br>Julie Morgan AC |
| Tystion: | Yr Athro Graham Donaldson<br>Luke Mansfield, St Julian's Primary School<br>Eirian Davies, Ysgol y Strade<br>Jackie Murphy, Tros Gynnal Plant<br>Sean O'Neill, Plant yng Nghymru<br>Emma Phipps-Magill, NYAS Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc) |

| | |
|---|---|
| | Gareth Rogers (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

View the meeting transcript (PDF 375KB) View as HTML (305KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Gweithredu Dyfodol Llwyddiannus: adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru – sesiwn dystiolaeth 1

Trafododd y Pwyllgor sut y caiff yr adolygiad ei roi ar waith gyda'r Athro Donaldson.

## 3 Gweithredu Dyfodol Llwyddiannus: adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru – sesiwn dystiolaeth 2

Trafododd y Pwyllgor sut y caiff yr adolygiad ei roi ar waith gyda chynrychiolwyr o ysgolion arloesi. Cafwyd ymddiheuriadau gan Dilwyn Jones o Ysgol Bryn Gwalia.

## 4 Ymchwiliad i wasanaethau eirioli statudol – sesiwn dystiolaeth 1

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan. Cafwyd ymddiheuriadau gan Deborah Jones, Lleisiau o Ofal, a rhoddodd Christopher Dunn dystiolaeth yn ei lle.

## 5 Papurau i'w nodi

O dan Reol Sefydlog 17.24 datganodd Llyr Gruffydd AC ei fod yn Llywydd Anrhydeddus Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol.

Nodwyd y papurau.

### 5.1 Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru – gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 6 Hydref

### 5.2 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr Cymru

### 5.3 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – Ariannu Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwifoddol yn y dyfodol

### 5.4 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes at gadeirydd y Pwyllgor – Ariannu Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol yn y dyfodol

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes gan ofyn am eglurhad pellach ar y llythyr a anfonwyd ynghylch ariannu Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol yn y dyfodol.

### 5.5 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant – gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 2 Tachwedd

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac yn ystod eitem 1 yng nghyfarfod yr wythnos nesaf.

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2017 – 18 – ystyried llythyrau drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar y llythyrau ynghylch y gyllideb ddrafft, yn amodol ar fân newidiadau.